



Ymddygiadau ffordd iach o fyw: Oedolion

Cyflwyniad

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Llywodraeth Cymru bennu Dangosyddion Cenedlaethol i fesur cynnydd tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol (Ffigur 1). Ar 16 Mawrth, 2016, gosodwyd set o 46 o [Ddangosyddion Cenedlaethol](#). Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion bennu Cerrig Milltir Cenedlaethol ar gyfer 2050 sy'n 'nodi disgwyliadau o ran cynnydd, gan gynnwys maint a chyflymder y newid sydd ei angen' (Welsh Government, 2019b, p. 3) i asesu a yw Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni'r nodau llesiant. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu'r ail don o Gerrig Milltir erbyn canol 2022.

Dangosydd cenedlaethol 3

Nod y briff yw llywio'r broses o ddatblygu Carreg Ffilltir realistig ac uchelgeisiol ar gyfer Dangosydd Cenedlaethol 3: *canran yr oedolion sydd â dau ymddygiad ffordd iach o fyw neu fwy*. Yr 'ymddygiadau ffordd iach o fyw' a nodir yn y Dangosydd yw:

- peidio ag ysmegu,
- bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau/llysiau bob dydd,
- peidio ag yfed yn uwch na'r canllawiau wythnosol,
- bod yn egniol yn gorfforol am o leiaf 150 munud yr wythnos,
- cynnal pwysau/BMI iach.

Yn yr wybodaeth sy'n dilyn, rydym yn amlinellu penderfynyddion (*determinants*) ymddygiadau ffordd iach o fyw ymhlith oedolion, cyd-destun polisi ac ysgogiadau, tueddiadau yn nata'r dangosydd, ac effaith pandemig y Coronafeirws ar iechyd a phenderfynyddion perthnasol, yn ogystal ag ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygu'r Garreg Ffilltir ar gyfer Dangosydd 3. Mae'r briff hwn yn seiliedig ar adolygiad cyflym o'r dystiolaeth sydd ar gael a'i fwriad yw llywio'r digwyddiad i randdeiliaid ar 17 Mawrth 2022. Fel y cyfryw, nid yw'n adolygiad cynhwysfawr na systematig o dystiolaeth berthnasol. Mae cyfres o ystyriaethau terfynol, sy'n tynnu o'r drafodaeth yn y digwyddiad i randdeiliaid, ar ddiwedd y briff hwn.



Ffigur 1: Y saith nod llesiant ar gyfer Cymru Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, 2020

Penderfynyddion ymddygiadau ffordd iach o fyw

Mae penderfynyddion iechyd yn ffactorau sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd i unigolion a chymunedau. Y penderfynyddion cymdeithasol iechyd, sef ein ffocws yma, yw'r agweddau anfeddygol ar fywydau pobl sy'n dylanwadu ar eu hymddygiadau a'u canlyniadau iechyd (Sefydliad Iechyd y Byd, 2021). Mae rhai o benderfynyddion allweddol iechyd oedolion (Dahlgren a Whitehead, 1993) yn cynnwys amodau byw a gwaith a'r hinsawdd economaidd-gymdeithasol, ddiwylliannol, fasnachol, wleidyddol a ffisegol ehangach. Mae Ffigur 2 yn dangos model Dahlgren a Whitehead (1993) o'r rhyng-gysylltiadau rhwng ffactorau o'r fath sy'n gweithredu ar lefel cymdeithas, cymuned ac yn unigol.

Bydd yr adran hon yn canolbwyntio ar benderfynyddion cymdeithasol ymddygiadau ffordd iach o fyw ymhlith oedolion yng Nghymru. Mae'r pum ymddygiad ffordd iach o fyw a fesurir gan y Dangosydd Cenedlaethol yn benderfynyddion iechyd oedolion yn eu hunain (hynny yw, mae cymryd rhan yn yr ymddygiadau hyn yn dylanwadu ar ganlyniadau iechyd) a chânt eu dylanwadu arnynt hefyd gan benderfynyddion iechyd ehangach. Mae dealltwriaeth o'r ffactorau ehangach sy'n pennu patrymau ymddygiadau ffordd iach o fyw o fewn poblogaeth yn allweddol i osod carreg filltir realistig o fewn fframwaith o gerrig milltir a dangosyddion sy'n berthnasol i ymatebion polisi a gynlluniwyd i wella llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae pob un o'r pum ymddygiad hyn wedi'u patrymu'n economaidd-gymdeithasol, yn dilyn 'graddiant cymdeithasol' o iechyd. Yn wir, yn ôl Marteau et al. (2021, t.1), mae achosion ymddygiadol a chymdeithasol iechyd yn rhannu sawl sbardun: fel 'dosbarthiad anghyfartal o incwm, nwyddau a gwasanaethau, addysg, cyflogaeth, pŵer ac, yn bwysig, tloidi - gyda'i ganlyniadau sylwol (*attentional*), emosiynol a materol'. Er bod model Dahlgren a Whitehead (1993) yn dangos penderfynyddion cymdeithasol iechyd, mae fframweithiau eraill hefyd yn cysylltu'r penderfynyddion hyn ag *anghydraddoldebau* iechyd (gweler Ffigur 3).

Felly, mae dewisiadau ymddygiad ffordd iach o fyw unigolion yn cael eu ffinio'n rhannol gan y cyd-destun economaidd-gymdeithasol y maent wedi'u magu ynddo ac y maent yn byw ynddo, a'r seilwaith a'r adnoddau y mae ganddynt fynediad atynt. Gall hyn effeithio arnynt mewn ffyrdd materol (er enghraifft, dim arian i brynu bwyd iach neu i fynd i'r gampfa) neu mewn ffyrdd seicolegol (er enghraifft, defnyddio alcohol, bwyd sydd wedi'i brosesu'n helaeth, ac ysmegu i leddfu straen, iselder a gorbryder). Rydym ni'n ymhelaethu ar yr olaf o'r rhain ymhellach isod.



Ffigur 2: Y prif benderfynyddion iechyd ym model Dahlgren a Whitehead
Ffynhonnell: Dahlgren a Whitehead, 1993

Caiff anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol o'r fath eu cymhlethu ymhellach, ac maent hefyd yn rhyngweithio ag, anghydraddoldebau eraill yn seiliedig ar, er enghraifft, hil ac ethnigrwydd, rhyw, rhywioldeb, oedran a digwyddiadau bywyd sydd, yn eu tro – ac mewn gwahanol gyfuniadau, trwy eu croestoriadedd (*intersectionality*) – yn dylanwadu ar ymddygiadau ffordd o fyw iach oedolion. Mae croestoriadedd yn golygu bod sawl elfen o ymyleiddio yn rhyngweithio ac yn creu gwahaniaethau ansoddol ym mhrofiadau gwahanol grwpiau (Crenshaw, 1989; González, 1988). Oherwydd cymhlethdod o'r fath, gall sefydlu achos sy'n gysylltiedig ag ymddygiadau ffordd o fyw fod yn heriol.

Mae'r patrwm economaidd-gymdeithasol hwn o ymddygiadau iach a'r croestoriad o anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ag anghydraddoldebau cymdeithasol eraill yn hynod berthnasol i osod a chyflawni carreg filltir. Er mwyn galluogi mwy o bobl i ymgymryd ag ymddygiadau iach, mae ymatebion polisi yn gofyn am ffocws ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol *ar yr un pryd â* pholisïau ar draws y boblogaeth sy'n galluogi ymddygiadau iach. Yn ogystal, mae penderfynyddion cymdeithasol ymddygiadau iach yn gysylltiedig â'r meysydd a nodwyd o fewn nodau llesiant Llywodraeth Cymru, fel addysg a chyflogaeth, gan alluogi enillion posibl neu gyd-fuddion ar draws meysydd polisi.

Cydnabyddir yn eang bod Adolygiad Marmot 2010 ac adroddiad '10 Mlynedd yn Ddiweddarach' Marmot yn 2020 yn allweddol wrth ddod â phenderfynyddion cymdeithasol anghydraddoldebau iechyd i'r amlwg yn Lloegr ac am gyfrannu at y drafodaeth ehangach, gan gynnwys sut y dylai'r rhain effeithio ar lunio polisïau (Prif Swyddog Meddygol Cymru, 2021; Kelly et al., 2016; Sefydliad Tegwch Iechyd UCL ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2017). Mae Adolygiadau Marmot yn darparu tystiolaeth bod canlyniadau iechyd gwael yn aml o ganlyniad i anghydraddoldebau cymdeithasol systemig a'u heffeithiau cronus, ac yn dadlau bod hynny'n fater llywodraeth gyfan, ac nid yn ymwneud â gofal iechyd a dewis yr unigolyn yn unig. Gan gydnabod hyn, mae Adolygiadau Marmot yn gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu ar draws y penderfynyddion cymdeithasol gan gynnwys tloedi plentyndod a sicrhau'r dechrau gorau i bob plentyn, addysg a dysgu gydol oes, cyflogaeth deg, mynediad at nwyddau ac adnoddau fel tanwydd a chlundant, bwydydd iach, a safon byw o ansawdd yn gyffredinol, ac, ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, sut mae angen i newid hinsawdd a chynaliadwyedd fod yn rhan o ddatblygiad polisi iechyd.

Fel enghraifft o bolisi yn ymarferol, mae Manceinion Fwyaf fel awdurdod rhanbarthol wedi datblygu ffocws polisi ar leihau anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau ym mhenderfynyddion cymdeithasol iechyd. Trwy gydweithio rhwng y Sefydliad Cydraddoldeb Iechyd a Manceinion Fwyaf, datblygwyd fframwaith o ddangosyddion arloesol a ddyluniwyd i fonitro perfformiad dros amser wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran iechyd a'i benderfynyddion cymdeithasol (Marmot, et al., 2021).

Dyma'r dangosyddion arloesol ar gyfer Awdurdodau Lleol yn Lloegr:

- Disgwyliad oes iach adeg geni – gwrywod a benywod
- Disgwyliad oes adeg geni – gwrywod a benywod
- Anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes adeg geni – gwrywod a benywod
- Pobl yn adrodd boddhad bywyd isel
- Lefel dda o ddatblygiad yn 5 oed
- Lefel dda o ddatblygiad yn 5 oed gyda statws prydau ysgol am ddim
- TGAU a gyflawnwyd (5A*-C gan gynnwys Saesneg a Mathemateg)
- TGAU a gyflawnwyd (5A*-C gan gynnwys Saesneg a Mathemateg) gyda statws prydau ysgol am ddim
- Pobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant
- Diweithdra % (dull seiliedig ar fodel y Swyddfa Ystadegau Gwladol)
- Hawlwyr hirdymor Lwfans Ceisio Gwaith
- Salwch sy'n gysylltiedig â gwaith
- Cartrefi nad ydynt yn cyrraedd Safon Isafswm Incwm

- Tlodi tanwydd ar gyfer aelwydydd â chostau tanwydd uchel
- Defnyddio gofod awyr agored am resymau ymarfer corff/iechyd


Mae anghydraddoldebau cymdeithasol yn effeithio ar ymddygiadau iach trwy wahaniaethau mewn mynediad at nwyddau ac adnoddau sy'n angenrheidiol ar gyfer ymddygiadau iach, a thrwy'r ffordd y maent yn gwneud i bobl feddwl a theimlo (llwybrau seico-gymdeithasol) fel y dangosir yn Ffigur 3 (Sefydliad Tegwch Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2017).

Mae ffactorau niweidiol neu 'achosion straen' fel diweithdra, amodau gwaith gwael (gan gynnwys gweithio mwy nag un swydd i ennill cyflog byw, amgylcheddau gwaith anodd, bregusrwydd mewn gwaith), amodau byw gwael (gan gynnwys diffyg mynediad at fannau diwylliannol a gwyrdd), tlodi, trosedd, ac ansicrwydd bwyd wedi'i ddsbarthu'n anghyfartal ledled cymdeithas a bydd unigolion sy'n cael eu heffeithio arnynt gan y rhain yn ymateb yn wahanol ar sail eu profiad bywyd, eu cefndir, a'u mynediad at adnoddau. Mae achosion straen ychwanegol yn cynnwys anghydraddoldeb rhyw a rhywiaeth, hiliaeth, homoffobia a thrawsffobia a gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl, sydd hefyd yn cael eu pennu a'u diffinio'n gymdeithasol. Gall yr achosion straen hyn ddechrau o'u plentyndod ac mae persbectif cwrs bywyd yn hanfodol wrth drafod effaith iechyd meddwl ar ganlyniadau iechyd, gan gynnwys ymddygiadau iechyd (Bécares et al., 2011; Adolygiad Marmot, 2010; 2020; Sefydliad Tegwch Iechyd UCL ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2017). Felly, ni ddylid gweld ymddygiadau afiach o safbwynt dewis yr unigolyn yn unig, ond trwy lens unigolion sydd wedi'u mewnosod mewn cyd-destunau cymdeithasol-ddiwylliannol sydd y tu allan i'w rheolaeth (Sefydliad Tegwch Iechyd UCL ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2017).

Yn debyg i fodel Dahlgren a Whitehead (1993; Graham, 2009), mae'r persbectif hwn yn canolbwyntio ar sut y gall cyd-destunau ehangach gyfyngu ar ddewisiadau unigolion, yn yr achos hwn trwy greu adfyd a straen yn eu bywydau, a all ddatblygu ymhellach i fod yn iselder, gorbryder, trawma a chyflyrau iechyd meddwl eraill.

Gall achosion straen o'r fath effeithio ar ymddygiadau ffordd iach o fyw oedolion, er enghraifft effeithio'n negyddol ar arferion bwyta a gweithgarwch corfforol ar gyfer unigolion a grwpiau sydd heb yr amser na'r arian i fuddsoddi mewn bwyta'n iach ac ymarfer corff (DHCS, 2020; Kelly et al., 2016). Mae straen amodau gwaith gwael, tangyflogaeth neu ddiweithdra wedi bod yn gysylltiedig â chyflyrau iechyd lluosog gan gynnwys salwch cronig, pwysedd gwaed uwch, iechyd meddwl gwael ac ymddygiadau camaddasol (*maladaptive*), fel yfed mwy a llai o ymweliadau â'r meddyg (Hergenrather et al., 2015; Sefydliad Tegwch Iechyd UCL ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2017). Mae iechyd meddwl gwael sy'n deillio o straen gwaith neu faterion fel dyled a digartrefedd, yn eu tro, yn gysylltiedig ag ymddygiadau afiach fel hunan-feddyginiaethu gydag alcohol (Sefydliad Tegwch Iechyd UCL ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2017). I'r gwrthwyneb, roedd ffactorau seicolegol a ystyriwyd fel 'amddiffynwyr' neu 'alluogwyr' newid cadarnhaol mewn ymddygiad yn cynnwys rhoi gwerth uchel ar iechyd fel arfer ataliol; teimladau o hunan-effeithiolrwydd; barn gadarnhaol ar heneiddio; nodau lles a chynnal ac integreiddio'r ymddygiad iach yn rhan o'r ffordd o fyw (Kelly et al., 2016). Gwelwyd bod modd newid ymddygiadau afiach hefyd pan fodlonwyd yr amodau angenrheidiol o ran amser a mynediad at adnoddau.

Yn erbyn yr archwiliad eang hwn o benderfynyddion cymdeithasol a seicogymdeithasol ymddygiadau ffordd o fyw iach oedolion, gallwn fynd ymlaen i ystyried penderfynyddion cymdeithasol pob un o'r pum ymddygiad unigol o Ddangosydd Cenedlaethol 3 yn eu tro. Mae ysmegu, camddefnyddio alcohol, deiet afiach, diffyg ymarfer corff a phwysau afiach i gyd yn risgiau adnabyddus i iechyd, ond mae gan bob ymddygiad ei 'we gymhleth o achos' ei hun, gan ymgorffori ffactorau unigol, cymunedol a chymdeithasol, gan gynnwys llwybrau seicogymdeithasol (Sefydliad Tegwch Iechyd UCL ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2017, t. 32).



Penderfynyddion iechyd ac anghydraddoldebau iechyd sy'n rhai cymdeithasol

Ffigur 3: Llywbrau seicogymdeithasol – cysylltu penderfynyddion cymdeithasol â phrosesau seico-biolegol, ymddygiadau iechyd, a dosbarthiad canlyniadau iechyd

Ffynhonnell: Sefydliad Tegwch Iechyd UCL ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2017

Ysmygu

Yng Nghymru, ysmygu yw'r ymddygiad ffordd o fyw sydd wedi cyfrannu at y nifer fwyaf o flynyddoedd wedi'u colli. Ar y llaw arall, mae nifer y bobl nad ydynt erioed wedi ysmygu ac sydd wedi rhoi'r gorau i ysmygu yn duedd gynyddol (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2017; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022).

Ysmygu yw un o'r ymddygiadau ffordd iach o fyw a gaiff ei asesu amlaf (Petrovic et al., 2018). Mae'n ymddygiad a gaiff ei gysylltu fwyaf â phobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, gyda phobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn tueddu i ysmygu mwy nag mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch (Kelly et al., 2016). Yn Lloegr, er enghraifft, mae ysmygu'n dilyn graddiant cymdeithasol ac mae'n fwy cyffredin ymhlith grwpiau incwm isel a phobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Yn ogystal, mae pobl ddi-waith ym Mhrydain bron ddwywaith yn fwy tebygol o ysmygu (35%) na'r rhai mewn cyflogaeth (19%) (Sefydliad Tegwch Iechyd UCL ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2017, t. 33). Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu y gallai'r math o addysg a gaiff pobl (cyfun *o'i gymharu â* dethol) effeithio ar p'un a ydynt yn dechrau ysmygu (Basu et al., 2018) a bod angen ystyried ffactorau iechyd meddwl wrth ystyried arferion ysmygu ((Sefydliad Tegwch Iechyd UCL ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2017). Yn wir, mae prosesau seicogymdeithasol ar waith yn y penderfyniad i ddechrau ysmygu, parhau i ysmygu ac wrth roi'r gorau iddi. Mae ysmygu hefyd yn cyflwyno gwahaniaethau demograffig: mae dynion a phobl ifanc yn tueddu i ysmygu mwy na menywod ac unigolion canol oed (Petrovic et al., 2018).

Mae'n anoddach cael pobl mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is a'r rhai a ddechreuodd ysmygu yn ifanc iawn i roi'r gorau iddi; mae diweithdra a diffyg cymhelliant hefyd yn creu rhwystrau o ran rhoi'r gorau iddi. Mae ffactorau sy'n hwyluso rhoi'r gorau i ysmygu yn cynnwys unigolion sy'n datblygu afiechydon sy'n eu gorfodi i stopio; dechrau ymddygiadau ffordd iach o fyw eraill ac ymgyrchoedd effeithiol ynghyd â gweithredu cymunedol mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol (Kelly et al., 2016).

Maeth


Mae cysylltiad mawr rhwng bwyta bwyd iach â chyflawni a chynnal pwysau iach. Mae ymchwil ar batrymau deietegol yn brinnach (Petrovic et al., 2018) oherwydd heriau methodolegol ar sut mae'r data'n cael ei gasglu a pha safon o batrwm bwyta'n iach sy'n cael ei ddefnyddio (Gramza-Michałowska, 2020; Marino et al., 2021; Rauber et al., 2020). Bu ffocws ar gael pobl i symud i ffwrdd o fwyta bwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth, ond mae'n bwysig sylweddoli nad yw hyn yn golygu deiet a fydd o reidrwydd yn cynnwys ffrwythau a llysiau, a dylid cwmpasu'r ddau nod. Yn ogystal, mae elfennau pwysig eraill a argymhellir ar goll yn y deiet Prydeinig, fel ffeibr a photasiwm (Gramza-Michałowska, 2020).

Bydd ymddygiad a ddysgwyd trwy gydol ei oes yn effeithiol ar ddeiet unigolyn (Carter, Hill-Dixon, 2021), ac, er ei fod yn amhendant, mae tystiolaeth i nodi bod gwybodaeth yn unig yn annigonol i sicrhau newid mewn patrymau deietegol (Ayaz-Alkaya et al., 2020). Mae penderfynyddion cymdeithasol yn dylanwadu'n drwm ar batrymau deietegol trwy fforddiadwyedd a mynediad (Canolfan Ymchwil Data Defnyddwyr (CDRC), 2020; Sefydliad y Farchnad Gymdeithasol, 2018). Mae gan Gymru sawl maes a ystyrir yn 'anialwch bwyd', a ddiffinnir fel y cyfryw gan y CDRC drwy system sgorio yn seiliedig ar:

- Agosrwydd a dwysedd cyfleusterau manwerthu bwyd;
- Trafnidiaeth a hygyrchedd;
- Nodweddion economaidd-gymdeithasol a demograffig cymdogaeth;
- Argaeledd a thueddiadau e-fasnach.

Mae ardaloedd yn derbyn cyfanswm sgôr yn seiliedig ar y nodweddion a ddisgrifir uchod, a ddefnyddir i greu rhestr raddedig o 1 i 10. Yn seiliedig ar y ddwy system archebu hyn (sgorio a graddio) ac eithrio

ardaloedd a gafodd eu graddio'n dda (neu'n isel), mae Ffigur 4 yn mapio'r ardaloedd hyn, gyda maint a lliw (mwy a melyn) yn dynodi achosion anialwch bwyd mwy eithafol.



*Ffigur 4: Map o bob anialwch bwyd yng Nghymru
Ffynhonnell: wedi'i ailadrodd o'r Ganolfan Ymchwil Data Defnyddwyr, 2020*

Bydd unigolion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol ac sydd heb fynediad at amrywiaeth o gynhyrchion yn aml yn 'bwyta'r hyn maen nhw'n ei wybod' a'r hyn sydd ar gael; mae'r amser sydd ar gael ar gyfer cynllunio a choginio prydau bwyd oherwydd cyfrifoldebau gwaith a gofal hefyd yn effeithio ar ddeiet (Kelly et al., 2016; Mallison et al., 2016; Sefydliad Tegwch Iechyd UCL ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2017). Mae prydau parod sydd ar gael yn tueddu i fod yn fwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth, gan greu cylch dieflig o ordewdra mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol uchel. Mae'n bwysig nodi nad yw achosiaeth wedi'i bennu, ac mae'r patrymau hyn yn gweithio gyda'i gilydd, ynghyd ag ymddygiad llonydd (Rauber et al., 2020). Yn olaf, mae hefyd yn berthnasol ystyried llwybrau seicogymdeithasol sy'n effeithio ar faeth, yn enwedig patrymau sy'n gyrru 'bwyta'n emosiynol' (Sefydliad Tegwch Iechyd UCL ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2017).

Canfuwyd nad yw'r Canllaw Bwyta'n Iach (*Eatwell*), canllawiau'r GIG ar gyfer deiet cytbwys, yn fforddiadwy i deuluoedd ym Mhrydain. Byddai'n rhaid i gartrefi â phlant yn y DU, gyda rhieni'n ennill llai na £15,860, wario 42% o'u hincwm i fodloni'r canllawiau Bwyta'n Iach. Yng Nghymru, byddai'n rhaid i'r 10% tlotaf wario 65.5% o incwm gwario'r cartref i fforddio bwyta deiet sy'n cydymffurfio â'r Canllaw Bwyta'n Iach, o'i gymharu â 6.6% ar gyfer y 10% cyfoethocaf (Scott et al., 2018). Mae'r argyfwng presennol a'r cynnydd pellach a ragwelir mewn costau byw yn y DU yn debygol o wneud bwyta deiet iach hyd yn oed yn llai fforddiadwy i deuluoedd incwm isel.

Elfennau eraill sy'n rhwystro rhag newid ymddygiadau maeth yw camddehongli negeseuon iechyd, gan gynnwys 'bwyta pump y dydd' yn y DU, ffactorau cymdeithasol-ddiwylliannol fel yfed alcohol, ffyrdd

afiach eraill o fyw, ffactorau seicolegol fel diffyg cymhelliant neu ganfyddiadau ynghylch capasiti, a hunaniaeth ynglŷn â bwyd. Mae'r ffactorau hwyluso a nodwyd yn cynnwys dewisiadau clir, pryderon iechyd, cyfnewid bwydydd, ac offer penodol, yn ogystal â chefnogaeth a hygyrchedd (Kelly et al., 2016).

Alcohol

Mae dosbarthiad cymdeithasol yfed alcohol yn wahanol i ysmegu. Mae tystiolaeth ar yfed alcohol yn dangos bod unigolion mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn yfed llai yn gyffredinol ond eu bod yn fwy tebygol o fod yn yfwyr trwm ac yn profi canlyniadau iechyd gwael oherwydd yfed (Angus et al., 2020; Bécares et al., 2011; Adolygiad Marmot, 2010; Wadd, Papadopoulos, 2014). Yn benodol, mae cymeriant alcohol yn uwch ar gyfer grwpiau economaidd-gymdeithasol mwy cefnog, ond mae effeithiau negyddol yfed ar iechyd yn fwy arwyddocaol i unigolion sy'n byw mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig. O gofio'r dystiolaeth ar lwybrau seicogymdeithasol a hunan-feddyginiaeth gydag alcohol oherwydd achosion straen, mae'n bosibl bod y canlyniadau hyn yn cael eu gwro oherwydd bod unigolion o fewn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig sy'n profi tlodi, digartrefedd, diweithdra a thangyflogaeth yn yfed yn drwm, tra bod unigolion mwy cefnog yn canfod eu hunain mewn mwy o sefyllfaoedd cymdeithasol a all arwain at yfed (Prif Swyddog Meddygol Cymru, 2021; Kelly et al., 2016; Sefydliad Tegwch Iechyd UCL ac Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2017).

Mae rhwystrau i newid ymddygiad o ran yfed alcohol yn cynnwys statws economaidd-gymdeithasol isel a byw mewn ardal economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig gyda chyfraddau troseddu uchel. Canfuwyd bod menywod lesbiaidd yn llai tebygol o newid eu hymddygiad tuag at yfed alcohol pan oeddent yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu o'u hunaniaeth (Kelly et al., 2016).

Gweithgarwch corfforol

Yn ôl data Eurobarometer (2018), mae 47% o boblogaeth y DU yn gorfforol weithgar gyda rhywfaint o gysondeb, o'i gymharu â 40% o boblogaeth Ewrop (UE-28). 'Cerdded am o leiaf 10 munud ar y tro' yw'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch corfforol hwn, gyda dros 39% yn cerdded am lai na 30 munud. Dim ond 44% sy'n ymgymryd â 'gweithgarwch corfforol egniol heblaw cerdded' gyda pheth cysondeb. Yn ôl y data Eurobarometer, mae menywod Prydeinig yn cymryd rhan mewn mwy o weithgarwch corfforol na dynion.

Mae chwaraeon yn chwarae rhan fach yng ngweithgarwch corfforol pobl Ewropeaidd a Phrydeinig fel ei gilydd, ac mae tystiolaeth yn dangos y byddai ymdrechion polisi yn elwa o ganolbwyntio ar gerdded yn hytrach nag ar fathau eraill o weithgarwch sy'n gofyn am gostau uwch o ran cymryd rhan (Downward et al., 2021). Caiff camp (*sport*) ei diffinio yn yr Eurobarometer fel unrhyw weithgaredd a wneir mewn 'cyd-destun chwaraeon neu leoliad sy'n gysylltiedig â chwaraeon, fel nofio, hyfforddi mewn canolfan ffitrwydd neu glwb chwaraeon, rhedeg yn y parc' (idem, t. 244). Ystyriaethau pwysig eraill sy'n dylanwadu ar lefelau is o weithgarwch corfforol yw anableddau a salwch cronig, diffyg amser, a materion seicolegol fel delwedd negyddol o'r corff a bod yn hunanymwybodol (Kelly et al., 2016). Mae'n bwysig nodi ei fod yn hysbys bod gweithgarwch corfforol o fudd i iechyd meddwl (Muhsen, Muhsen, 2020).

Mae tystiolaeth yn dangos bod llawer o rwystrau i newid ymddygiad o ran gweithgarwch corfforol, sy'n cynnwys: salwch cronig, diffyg diogelwch, diffyg mynediad mewn ardal a chostau ariannol, canfyddiad o ddifffyg gallu (ymysg menywod) ac agweddau sydd wedi ymwreiddio. Yn benodol ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig, mae rhwystrau ieithyddol a diwylliannol. Mynegodd menywod broblemau gyda rolau rhyw a chynnal a chadw gwallt. Roedd gan bobl anabl broblemau y tu hwnt i iechyd a mynediad corfforol, gan gynnwys cost, gwybodaeth, a rhwystrau emosiynol a seicolegol (Kelly et al., 2016).

Mae hwyluswyr ar gyfer newid ymddygiad mewn gweithgarwch corfforol yn cynnwys rhoi cefnogaeth i bobl, offer penodol, a chyfeirio effeithiol, eu cyfeirio tuag at fwynhad, ansawdd bwyd gwell, ac atal salwch. Ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig, mae hwyluswyr yn cynnwys y math o weithgaredd corfforol

a chael yr offer perthnasol gartref; i fenywod, gweld menywod sy'n weithgar yn gorfforol yn fodolau rôl. Mae hwyluswyr ar gyfer pobl anabl yn cynnwys gwell mynediad at offer, gwybodaeth, costau is, a chefnogaeth gyda rhwystrau emosiynol a seicolegol (idem).

Mynegai Màs y Corff

Mae cyflawni a chynnal BMI iach wedi'i gysylltu'n gynhenid â maeth a gweithgarwch corfforol (Dicken et al., 2021; Rauber et al., 2020). Mae hefyd yn cael ei bennu'n gryf gan gyd-destun economaidd-gymdeithasol a diwylliannol ehangach unigolyn. Mae BMI uwch yn fwy cyffredin yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol (DHCS, 2020; Hillier-Brown et al., 2014, Adolygiad Marmot, 2010), yn enwedig mewn gwledydd diwydiannol (FAO et al., 2021).

Er bod BMI uwch yn broblem sy'n effeithio ar y DU gyfan, mae'n fwy tebygol o effeithio ar bobl 55-74 oed, sy'n byw mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig, ac yn perthyn i boblogaethau lleiafrifoedd ethnig, gyda risgiau iechyd yn cynyddu ar gyfer yr olaf o gymharu â risgiau iechyd i unigolion gwyn (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2020).

Mae tystiolaeth ar sut i ymgysylltu ag unigolion drwy bolisi yn dangos bod negeseuon sy'n canolbwyntio ar ddelwedd y corff a cholli pwysau, mewn gweithgarwch corfforol a maeth, yn hytrach nag iechyd a mwynhad yn llai effeithiol ac nid ydynt yn cael effeithiau hirdymor cadarnhaol (Kelly et al., 2016; Hillier-Brown et al., 2014).

Cyd-destun ac ysgogiadau polisi

Wrth ystyried Carreg Filtir Genedlaethol addas, yn ogystal â deall penderfynyddion ymddygiadau ffordd iach o fyw oedolion, mae'n ddefnyddiol ystyried y pwerau, yr ysgogiadau a'r polisiâu sydd ar gael i Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus Cymru i hyrwyddo newid yn y penderfynyddion hyn ac yn y pen draw, yn erbyn y Dangosydd ei hun.

Mae iechyd yn faes polisi datganoledig yng Nghymru. Felly, mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i bennu ei pholisiâu a'i strategaethau iechyd ei hun yn annibynnol ar Lywodraeth y DU. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd y pŵer i gynnig deddfau sy'n ymwneud ag iechyd yng Nghymru (Public Health Network Cymru, 2021a).

Y strategaeth iechyd gyffredinol sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru yw **Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol**. Amlinellwyd y cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru yn 2019 ac mae'n 'gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch' (Welsh Government, 2019d, p. 3). Mae'n pwysleisio pwysigrwydd 'ffactorau ffordd o fyw' ymhlith oedolion ac yn ymrwmo i 'ddull iechyd cyhoeddus cryf' i hybu ymddygiadau iach (Welsh Government, 2019d, p. 7).

Mae Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) yn amlygu bod natur iechyd a nifer y penderfynyddion sy'n dylanwadu ar ymddygiadau iechyd yn golygu bod ystod o feysydd polisi y tu hwnt i iechyd yn berthnasol i ddatblygiad strategaeth a pholisi iechyd effeithiol. Ymhlith y meysydd polisi ehangach a all effeithio ar iechyd y mae gan Lywodraeth Cymru bŵer sylweddol drostynt mae addysg, sgiliau, bwyd, chwaraeon a hamdden, tai, adfywio, yr amgylchedd a chynllunio, trafndiaeth, a rhai pwerau codi trethi, gan gynnwys y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a rheolaeth rannol dros dreth incwm.

Mae **Atodiad 1** yn dangos rhestr o bolisiâu diweddar a chyfredol Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i ymddygiadau iechyd.


Cyfyngiadau ar bwerau

Er bod gan Lywodraeth Cymru y pŵer i bennu ei pholisïau iechyd ei hun, nid oes ganddi'r pŵer dros yr holl feysydd polisi a'r ysgogiadau a all effeithio ar ymddygiadau iechyd.

Yn benodol, dim ond pwerau cyfyngedig sydd gan Lywodraeth Cymru dros les cymdeithasol neu nawdd cymdeithasol sy'n cyfyngu ar ei gallu i fynd i'r afael ag amddifadedd ac anghydraddoldeb (o ran cyllid ac adnoddau materol) – dylanwad pwysig ar iechyd ac ymddygiadau iechyd. Mae pwerau codi trethi Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfyngedig. Nid oes ganddi unrhyw reolaeth dros TAW na phrisiau gwahaniaethol gwahanol fwydydd. Ysgogydd polisi cysylltiedig arall nad yw ar gael i Lywodraeth Cymru yw rheolaeth dros hawliau cyflogaeth.

Y tu hwnt i hyn, mae gan ffactorau allanol ychwanegol fel Brexit a deddfwriaeth arall ar lefel y DU y potensial i effeithio ar gynhyrchu bwyd yng Nghymru a rheoleiddio ar lefelau derbynol o gynhwysion (er enghraifft siwgr) ac ansawdd bwyd, yn ogystal â newidiadau yn y farchnad fewnol.

Mae llymder, materion ariannol eraill, a bargeinion masnach hefyd yn berthnasol. Mae Ffigur 5 yn tynnu sylw at bwysigrwydd cysylltu canlyniadau iechyd ag amddifadedd/tlodi a llymder/gwariant awdurdodau lleol. Mae'n dangos bod gwariant y pen fesul ardal awdurdod lleol yng Nghymru o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Mae hyn yn dangos yr amrywiad mawr mewn gwariant rhwng blynyddoedd ac awdurdodau lleol fesul person, a all gael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd pobl.



Ffigur 5: Gwahaniaeth mewn gwariant y pen fesul awdurdod lleol - 2015-2021 (Ffynhonnell: StatsCymru)

Wrth ystyried cyfyngiadau pwerau Llywodraeth Cymru mae'n bwysig nodi bod nifer o ffactorau yn dylanwadu ar ymddygiadau iach sy'n gweithredu dros ystod o raddfeydd o'r unigolyn i'r lleol, yn

genedlaethol a hyd yn oed yn fyd-eang. O'r herwydd, mae'n amlwg y bydd rhai o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiadau ffordd iach o fyw oedolion yng Nghymru bob amser yn parhau ymhell y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus.

Fodd bynnag, er gwaethaf pŵer cyfyngedig Llywodraeth Cymru dros bolisiau lles cymdeithasol a threthiant, gellir gwneud llawer i leihau anghydraddoldebau cymdeithasol a gwella iechyd mewn meysydd polisi y mae gan Lywodraeth Cymru bŵer drostynt (iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, sgiliau, bwyd, chwaraeon a hamdden, tai, adfywio, yr amgylchedd a chynllunio, trafndiaeth, a rhai pwerau codi trethi, gan gynnwys y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a rheolaeth rannol dros dreth incwm).

Linellau sylfaen a thueddiadau

Er mwyn ystyried Carreg Filltir Genedlaethol addas, mae angen deall 'cyfeiriad y daith' ar hyn o bryd o ran ymddygiadau ffordd iach o fyw oedolion a chyflymder a graddfa'r newid a welwyd yn flaenorol mewn perthynas â'r Dangosydd Cenedlaethol hwn. Daw'r data ar gyfer hyn o Arolwg Cenedlaethol Cymru (NSfW).

Ar ôl ystyried rhai heriau mesur, mae'r adran ganlynol yn nodi llinell sylfaen ymddygiadau ffordd iach o fyw oedolion yn gyffredinol yng Nghymru yn erbyn y Dangosydd ac yna'n cymryd pob un o'r pum ymddygiad yn ei dro, gan eu gwahanu yn ôl cwintel rhyw ac amddifadedd.¹

Heriau gyda mesur

Mae'r her gyda data sy'n gysylltiedig â gosod Carreg Filltir Genedlaethol ar gyfer ymddygiadau ffordd iach o fyw oedolion yng Nghymru yn ymwneud yn bennaf â chysondeb o ran mesur. Mae'r NSfW yn cael ei gynnal trwy gydol y flwyddyn, ar sawl pwnc, gyda maint sampl misol o oddeutu 1,000 o bobl. Fodd bynnag, oherwydd pandemig Covid-19, roedd rhaid newid methodoleg yr arolwg o gyfweiliadau wyneb yn wyneb i gyfweiliadau dros y ffôn ac ail-eirio cwestiynau'r arolwg. Mae ymatebwyr yn ateb cwestiynau'n wahanol os ydynt wyneb yn wyneb, dros y ffôn, neu ar bapur/ar-lein. Yn ogystal, oherwydd y pandemig, ni chafodd pob un o'r pum ymddygiad ffordd o fyw eu harolygu'n gyfartal drwy gydol y cyfnod oherwydd addasiadau yn yr arolwg. Mae'r newidiadau hyn yn golygu sawl bwlch yn y data ac anallu i gymharu'r data cyfredol â'r hyn a gasglwyd yn flaenorol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2022).

Daw'r holl ddata a drafodir isod o'r NSfW rhwng 2016 a 2020. Mae data ar gyfer 2021 ar gael ar gyfer Ionawr-Mawrth yn unig ac nid ydynt yn galluogi unrhyw gasgliadau ystyrion ar hyn o bryd.

Dau ymddygiad ffordd iach o fyw neu fwy

Mae canran yr oedolion sydd â dau ymddygiad ffordd iach o fyw neu fwy oddeutu 90% ar gyfer pob blwyddyn arolwg (Ffigur 6). Yn gyffredinol, mae menywod yn fwy tebygol o fod yn y grŵp hwn, gyda thua 90% o fenywod â mwy na dau ymddygiad iach o'u cymharu â dynion, sef 88.5% (Ffigur 7). Mae menywod yn dangos mwy o gysondeb wrth gynnal dau ymddygiad neu fwy dros flynyddoedd yr arolwg, tra bod dynion yn dangos mwy o amrywiad dros amser.


Yn ôl y data, mae menywod yn tueddu i ysmygu ac yfed llai a bwyta mwy o ffrwythau a llysiau, tra bod dynion yn cymryd rhan mewn mwy o weithgarwch corfforol. Mae mwy o oedolion mewn cwintellau llai difreintiedig yn adrodd am ddau ymddygiad ffordd iach o fyw neu fwy, ond mae mwy o unigolion yn y

¹ Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn fesur o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru, gan gynnwys pob ardal fach o 1 (mwyaf difreintiedig) a 1,909 (lleiaf difreintiedig). Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn rhestru cwintellau amddifadedd yn seiliedig ar y data hwn o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig. Gellir dod o hyd i'r rhestr hon yma: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019/welshindexofmultipledeprivation2019-by-rank-decileandquintile-lowerlayerssuperoutputarea>


cwintelau cyntaf a'r ail (ardaloedd mwyaf difreintiedig) yn nodi un ymddygiad ffordd iach o fyw yn unig. Er bod amrywiaeth o fewn y grŵp rhwng blynyddoedd yr arolwg, mae bwlch parhaus rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig (Ffigur 8).

Ysmygu

Mae'r tueddiadau ar gyfer y cyfnod 2016-2020 yn awgrymu rhywfaint o lwyddiant mewn perthynas â pholisïau sy'n ceisio cwtogi ar ysmegu. Dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod naill ai wedi rhoi'r gorau i ysmegu neu erioed wedi ysmegu, gyda'r ail o'r rhain yn cyfrif am dros 50% o'r boblogaeth ar gyfer pob blwyddyn arolwg. Mae ysmegu yn dueddol o fod yn fwy cyffredin ymhlith unigolion sy'n byw mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol mwy difreintiedig yng Nghymru. Ni chanfuwyd unrhyw wahaniaethau amlwg ar draws grwpiau oedran na blynyddoedd arolwg. Mae menywod ychydig yn fwy tebygol o fod erioed wedi ysmegu na dynion.




Ffigur 6: Canran yr oedolion a'u hymddygiadau ffordd iach o fyw cyfun yn ôl blwyddyn arolwg
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-2020



*Ffigur 7: Canran yr unigolion sydd â dau ymddygiad iach neu fwy, yn ôl blwyddyn arolwg a rhyw
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-2020*

Alcohol

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod yn yfed yn gymedrol, hynny yw, hyd at 14 uned yr wythnos. Fodd bynnag, effeithir ar y nifer hwnnw gan y ffaith fod nifer sylweddol o fenywod yn yfwrwyr cymedrol, tra bod mwy o ddynion yn ymateb fel yfwrwyr trwm. Mae mwy o bobl nad ydynt yn yfed yn y cwintel cyntaf (mwyaf difreintiedig), ond dim patrwm canfyddadwy o yfwrwyr cymedrol yn ôl cwintel amddifadedd. Mae yfed alcohol yn cynyddu'n ysgafn wrth i lefel amddifadedd ardal ostwng.



*Ffigur 8: Canran yr unigolion sydd â dau ymddygiad iach neu fwy, yn ôl cwintel amddifadedd a blwyddyn arolwg
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-2020*

Maeth

Mae menywod yn fwy tebygol o gadw at ganllawiau maeth ac o fod wedi bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau ar y diwrnod cyn yr arolwg na dynion. Bu cynnydd bach dros amser o gadw at y canllawiau gan y ddau ryw. Unigolion mewn cwintelau llai difreintiedig sydd wedi cael y gyfradd ymateb uchaf i fwyta eu 'pump y dydd'. Fodd bynnag, hyd yn oed ar eu cyfradd uchaf yn y pumed cwintel, dim ond 30% o'r ymatebwyr (2019-2020) yw hyn.


Gweithgarwch corfforol

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos ymlyniad ychydig yn uwch at ganllawiau gweithgarwch corfforol ar gyfer dynion o'i gymharu â menywod, ac ar gyfer unigolion yn y cwintelau lleiaf difreintiedig o'u cymharu â'r rhai yn y rhai mwyaf difreintiedig. Gallai hyn ddangos gwahaniaethau yn y mathau o weithgareddau corfforol sy'n cael eu gwneud gan wahanol grwpiau a ph'un a ydynt ar gyfer chwaraeon ac ymarfer corff neu dasgau dyddiol, o ystyried ymchwil ar yr hyn y mae gweithgarwch corfforol yn ei olygu a pha bobl sy'n debygol o fod yn cymryd rhan ynddo am ymarfer corff a chwaraeon yn unig (Downward et al., 2021). Fodd bynnag, nid yw Arolwg Cenedlaethol Cymru yn gofyn beth yw'r gweithgarwch yr ymgwymerir ag ef, mewn cyferbyniad â'r arolwg Eurobarometer, felly dim ond drwy gyfraddau uwch y gweithgarwch ymhlith y grwpiau hyn y gellir casglu hyn.


Mynegai Mâs y Corff

Mae gan oddeutu 38% o boblogaeth Cymru BMI rhwng 18.5 a 25, sy'n cael ei ystyried yn bwysau iach. Mae gan 36% arall BMI rhwng 25 a 30, sy'n golygu eu bod dros bwysau, ond nid yn ordew. Yn ôl arolwg 2019-2020, mae 25% o'r boblogaeth mewn BMI afiach neu'n ordew, cynnydd o tua 2.5% ers blynyddoedd blaenorol. At ei gilydd, roedd gan 60% o boblogaeth Cymru BMI dros 25 (dros bwysau neu'n ordew) yn 2019-20.

Mae gwahaniaeth rhwng y rhywiau, gan fod menywod yn fwy tebygol o gael BMI rhwng 18.5 a 25 a dynion yn fwy tebygol o gael BMI rhwng 25 a 30, gyda'r bwlch hwnnw ar tua 10% ar gyfer holl flynyddoedd yr arolwg. Mae canran y bobl sydd â BMI rhwng 18.5 a 25 yn gostwng ym mhob cwintel, tra bod y ganran sydd â BMI rhwng 25 a 30 yn cynyddu. Mae tuedd bod y bwlch yn cau rhwng cwintelau yn yr ystod honno. Fodd bynnag, mae canran yr unigolion sydd â BMI rhwng 25 a 30 yn cynyddu yn y cwintelau lleiaf difreintiedig.



Ffigur 9: Cymhariaeth rhwng 18.5 <BMI>25 a BMI>25+ fesul cwintel amddifadedd a blwyddyn arolwg
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-2020



Ffigur 10: Canran y boblogaeth gydag ymddygiadau ffordd o fyw sy'n niweidio iechyd yn ôl blwyddyn arolwg

Effaith y Coronafeirws

Er bod gan Lywodraeth Cymru bwerau i ddylanwadu ar amrywiaeth o benderfyniadau ffyrdd iach o fyw, mae ffactorau economaidd a chymdeithasol eang y tu allan i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy'n debygol o effeithio ar dueddiadau iechyd. Un ffactor allanol pwysig, er enghraifft, yw Covid-19, a gafodd ei ddatgan yn bandemig gan Sefydliad Iechyd y Byd ar 11 Mawrth 2020. Mae'r pandemig wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau iechyd presennol (Marmot ac Allen, 2020) ac mae'n debygol o ddylanwadu ar iechyd yng Nghymru am flynyddoedd lawer i ddod, er bod tystiolaeth yn y maes hwn yn gyfyngedig a dim ond nawr yn dechrau dod i'r amlwg.

Effaith y Coronafeirws ar iechyd

Mae effaith y pandemig coronafeirws newydd ar ymddygiadau ffordd iach o fyw wedi bod yn eang ac yn amrywiol. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y pandemig wedi gwaethygu ymddygiadau afiach a oedd yn bresennol yn flaenorol, er ei bod yn ymddangos bod ymddygiad llonydd wedi cynyddu yn gyffredinol, gan gynnwys ymhlith pobl a oedd yn cymryd rhan mewn mwy o weithgarwch corfforol (Czenczek-Lewandowska et al., 2021; Richardson et al., 2021). Daw effeithiau niweidiol y pandemig ar iechyd yn sgil llai o fynediad at fannau awyr agored ac i ddewisiadau siopa amgen, problemau gyda'r cadwyni cyflenwi byd-eang, newidiadau mewn patrymau gwaith gan gynnwys diweithdra, newidiadau economaidd (Benzeval et al., 2020), a chanlyniadau seicolegol byw gyda'r achosion straen hyn, gan gynnwys y pryder iechyd yn sgil y pandemig. Mae tystiolaeth yn tynnu sylw at *effeithiau cronus*. Er eu bod eisoes yn bresennol mewn ymddygiadau ffordd o fyw cyn y pandemig, bu i'r pandemig eu cynyddu ac atgyfnerthu patrymau ymddygiad (Czenczek-Lewandowska et al., 2021; Mazidii et al., 2021; Richardson et al., 2021; Robinson et al., 2021).

Iechyd meddwl

Fe wnaeth cyfnodau clo'r pandemig Covid-19 arwain at sawl achos straen a phroblemau iechyd meddwl i'r boblogaeth. Mae sawl astudiaeth yn dadansoddi effaith y pandemig a'r cyfnodau clo ar orbryder, iselder a blinder, ymhlith eraill (Hampshire et al., 2021). Gostyngodd lefel llesiant cyffredinol pobl, a chynyddodd lefelau gorbryder, gydag adroddiadau bod llai o gefnogaeth gan wasanaethau iechyd meddwl (ONS, 2022; Rethink, 2020). Er bod gostyngiad mewn apwyntiadau seiciatrïg arferol, bu cynnydd mewn apwyntiadau iechyd meddwl brys yn ystod ac yn dilyn cyfnod clo mis Mawrth 2020 (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2020).

Yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn 2020, roedd cael cyfle a chymhelliant naill ai i ddechrau neu gynnal ymddygiadau iach yn hanfodol (Spence et al., 2020); ac roedd peidio â chael y cyfle na'r cymhelliant yn aml yn golygu dechrau ymddygiad afiach neu llithro'n ôl i hen arferion (O'Donnell et al., 2021) fel y dangoswyd yn y model seicogymdeithasol yn Ffigur 3.

Gweithgarwch corfforol

Mae tystiolaeth yn dangos bod cynnydd serth mewn ymddygiad llonydd yn ystod cyfnodau clo, a ddangoswyd yn benodol mewn mwy o amser yn cael ei dreulio yn eistedd (Czenczek-Lewandowska et al., 2021; Richardson et al., 2021; Spence et al., 2020). Roedd diffyg mynediad at fannau gwyrdd a champfeydd a chanolfannau chwaraeon yn golygu bod gan unigolion lai o fynediad at weithgareddau corfforol egniol a hamddenol, a all helpu i atal diabetes, pwysedd gwaed uchel, clefyd y galon, gordewdra, a lliniaru symptomau iechyd meddwl fel iselder a gorbryder (Caroppo et al. 2021). Mae'n bwysig nodi bod nifer o'r problemau hyn yn gydfafiacheddau (*comorbidities*) â Covid-19.

Roedd llai o weithgarwch corfforol yn gysylltiedig ag iechyd meddwl, bregusrwydd ac unigrwydd ac ynysu cymdeithasol, a nodwyd yn benodol mewn unigolion a oedd naill ai:

- yn dioddef mwy gyda gorbryder cyffredinol (nodwyd bod gorbryder yn uwch ar gyfer unigolion â lefelau is o addysg);
- menywod ifanc (Czenczek-Lewandowska et al., 2021);
- poblogaethau agored i niwed fel y rhai sy'n profi digartrefedd;
- dros 85;
- wedi ysgaru neu'n sengl;
- yn byw ar eu pen eu hunain;
- yn adrodd am deimlo'n unig (McBride et al., 2021);
- dangos symptomau iselder (Salman et al., 2021).

Ar y llaw arall, fe wnaeth y rhan fwyaf o oedolion Prydain (57%) gynnal neu gynyddu eu lefelau o weithgarwch corfforol yn ystod y cyfnod clo cyntaf, gyda'r cyfaddawd pwysig bod hyn wedi dod gydag ymddygiad mwy llonydd (Spence et al., 2020). Fodd bynnag, nodwyd bod pobl iau (o fewn y sampl astudiaeth 18-35) yn fwy tebygol o gynyddu eu hymddygiad llonydd a gostwng eu lefelau gweithgarwch corfforol yn ystod y cyfnod clo (Czenczek-Lewandowska et al., 2021).

Deiet a bwyd iach

Cafodd y pandemig effaith hefyd ar sut roedd unigolion yn bwyta, ac mae tystiolaeth yn dangos cynnydd cyffredinol mewn pobl yn bwyta 'byrbrydau' (McBride et al., 2021; Mazidii et al., 2021) a phroblemau gyda rheoli pwysau (Robinson et al., 2021). Awgrymir y gallai dirywiad iechyd meddwl oherwydd y pandemig fod wedi gwaethygu ymddygiad y rhai a oedd eisoes yn agored i orfwyta (Herle et al., 2021; Robinson et al., 2021). Roedd newidiadau mewn patrymau deietegol yn canolbwyntio ar gynnydd yn y defnydd o fwydydd â chynnwys braster a siwgr uchel ac roedd yn aml yn gysylltiedig ag ymddygiadau eraill fel yfed gormodol, ymddygiad llonydd, 'moment' y pandemig, statws cyflogaeth, a rhyw – gyda dynion yn ffafrio bwydydd afiach yn hytrach na rhai iach (Dicken et al., 2021). Roedd p'un a oedd hyn yn effeithio ar BMI unigolion yn dibynnu ar eu lefelau gweithgarwch corfforol a'u cymeriant alcohol. Nodwyd patrymau deietegol iachach ymhlith oedolion hŷn (dros 61) neu bobl mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol is (Mazidii et al., 2021). Nododd unigolion a oedd eisoes dan bwysau eu bod wedi bwyta llai yn ystod y pandemig (Herle et al., 2021; McBride et al., 2021). O'u defnyddio, cafodd cyfryngau cymdeithasol effaith gadarnhaol ar hunan-reoli ymddygiadau iach trwy fynediad at wybodaeth gywir am sesiynau cadw'n heini ac ansawdd deietegol ac i gadw mewn cysylltiad â grwpiau cymdeithasol (Goodyear et al., 2021).

Mae arwyddion yn dangos bod y rhan fwyaf o boblogaeth Prydain (64%) wedi cynnal eu hymddygiadau deietegol, er bod newidiadau wedi'u gwneud gan rai grwpiau penodol o bobl. Er enghraifft, roedd iselder ac unigrwydd yn gysylltiedig â bwyta mwy wrth fod yn sengl neu wedi ysgaru ac roedd straen yn gysylltiedig â bwyta llai. Yn ogystal, roedd unigolion mwy addysgedig yn fwy tebygol o newid eu hymddygiad (Herle et al., 2021).

